SL(5)513 – Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) 2020

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) 2020 (“y Rheoliadau”) yn diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (“Rheoliadau 2011”), a ddiwygiwyd yn flaenorol gan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020 (“y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol”)

Gwnaed diwygiadau gan y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol i reoliadau 20(7) a 23(6) o Reoliadau 2011 a allai, fel y disgrifir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn, gael eu dehongli fel rhwymedigaeth ariannol anfwriadol i'r llywodraeth ddigolledu mewnforwyr am lwythi nad ydynt yn cydymffurfio o anifeiliaid neu o gynhyrchion anifeiliaid sy’n cael eu dinistrio. Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r geiriad yn rheoliadau 20(7), a 23(6) er mwyn i'r ddeddfwriaeth ddarparu bod y mewnforiwr yn atebol am unrhyw dreuliau yr eir iddynt wrth ymdrin â'r mesurau a osodir ar y mewnforiwr ar ôl mewnforio’r llwyth nad yw'n cydymffurfio.

Mae rheoliad 12(4) o reoliadau 2011 wedi’i ddiwygio, mewn perthynas â chylch gwaith arolygwyr pysgod swyddogol. Mae'r diwygiad yn egluro bod arolygwyr pysgod swyddogol yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â chynhyrchion cyfansawdd sy'n cynnwys cynhyrchion pysgodfeydd yn y Rheoliadau wedi eu prosesu.

Mae rheoliad 20(8) o Reoliadau 2011, sy'n ymwneud â'r hawl i’r mewnforiwr neu gynrychiolydd y mewnforiwr gael ei glywed ynghylch llwyth nad yw'n cydymffurfio, wedi ei hepgor.

Mae paragraff 9(1) o Atodlen 2 i Reoliadau 2011 wedi ei ddiwygio i fynd i’r afael â gwall a gyflwynwyd i’r Atodlen hon gan y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Cynulliad.

1. Mae rheoliad 20(8) o Reoliadau 2011 sy'n ymwneud â hawl y mewnforiwr neu gynrychiolydd y mewnforiwr i gael ei glywed ynglŷn â llwyth nad yw'n cydymffurfio, wedi ei hepgor gan y Rheoliadau hyn. Nid yw'n eglur pam y mae rheoliad 20(8) wedi ei ddileu.

Mae rheoliad 20(8) yn darparu y *"caiff y mewnforiwr neu gynrychiolydd y mewnforiwr gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ar unwaith, ac o fewn un diwrnod gwaith ar ôl cael ei hysbysu am yr achos o fethu â chydymffurfio, ynghylch unrhyw benderfyniad a gymerwyd o dan y rheoliad hwn, a rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau o'r fath a rhoi ymateb ysgrifenedig o fewn un diwrnod gwaith i gael sylwadau o'r fath."*

Mae paragraff 4.2 o'r Memorandwm Esboniadol yn darparu bod rheoliad 20(8) yn wedi ei hepgor gan fod y mewnforiwr (neu gynrychiolydd y mewnforiwr) â'r hawl eisoes i gael ei glywed ynghylch llwyth nad yw'n cydymffurfio drwy ddibynnu'n uniongyrchol ar Erthygl 66(3) o Reoliad 2017/625 yr UE.

Mae'r paragraff olaf o erthygl 66(3) o Reoliad 2017/625 yr UE yn darparu, cyn i'r gweithredwr gael ei orchymyn i weithredu, y bydd yr awdurdod cymwys yn gwrando'r gweithredwr dan sylw, **oni bai bod angen gweithredu ar unwaith** er mwyn ymateb i risg i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, lles anifeiliaid neu, o ran GMOs a chynhyrchion diogelu planhigion, hefyd i'r amgylchedd.

Rydym o'r farn bod y Nodyn Esboniadol yn adlewyrchu geiriad erthygl 66(3) yn gywir, ac nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn gwneud hynny. Mae'r Nodyn Esboniadol yn darparu'n gywir, yn rhinwedd erthygl 66(3), fod gan y mewnforiwr neu gynrychiolydd y mewnforiwr hawl mewn **amgylchiadau penodol** i gael ei wrando ynghylch gofyniad y bwriedir ei osod mewn perthynas â llwyth nad yw'n cydymffurfio. Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod bod eithriadau i'r hawl i wrandawiad, ac nid yw'n ei gwneud yn ddigon clir i'r mewnforiwr neu i gynrychiolydd y mewnforiwr efallai na fydd hawl ganddo i wrandawiad mewn amgylchiadau penodol.

Ymddengys fod dileu rheoliad 20(8) yn gadael llai o hawl i'r mewnforiwr neu gynrychiolydd y mewnforiwr gael ei wrando nag a ddarperir ar hyn o bryd. Nid yw'n ddigon clir pam y mae'r ddarpariaeth hon wedi ei dileu, a pha effaith y gallai dileu'r ddarpariaeth hon ei chael.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

Ymateb y Llywodraeth

Derbyniwn fod mynegiant y nodyn esboniadol yn fwy eglur na'r memorandwm esboniadol. Er hynny, mae cyfeiriadau cyfreithiol cywir yn y ddwy ddogfen yn cyfeirio'r darllenydd at y ddarpariaeth berthnasol yn Rheoliad yr UE. Yn ogystal, mae'r ddwy ddogfen yn nodi'r rheswm dros y diwygiad a'i effaith – mae'r hawl i gael eu clywed wedi ei darparu gan y ddarpariaeth berthnasol yn Rheoliad yr UE. O'r herwydd, ar ôl pwyso a mesur, nid ydym yn bwriadu diwygio'r memorandwm esboniadol.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd uchod a nodwyd a hefyd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.